




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Fframwaith ar gyfer anawsterau dysgu penodol



Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 175/2015

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2015

Fframwaith ar gyfer anawsterau dysgu penodol

- Cynulleidfa** Ysgolion prif ffrwd ac awdurdodau lleol.
- Trosolwg** Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth i helpu arweinwyr ysgol ac ymarferwyr i ddeall yr anawsterau y mae dysgwyr ag anawsterau dysgu penodol (ADP) yn eu hwynebu er mwyn iddynt allu gwneud addasiadau priodol i'w harferion addysgu ac amgylchedd yr ysgol/dosbarth.
- Camau i'w cymryd** Dylai ymarferwyr ystyried y cyngor hwn fel rhan o'u harferion yn y dosbarth wrth gefnogi dysgwyr sydd ag ADP.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3003
e-bost: Additionallearningneedsbranch@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn dysgu.cymru.gov.uk

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Diben, nodau a nodweddion y Fframwaith ADP	4
Y Fframwaith ADP	5
Atodiad: Disgrifiadau o ADP	13

Cyflwyniad

Mae anawsterau dysgu penodol (ADP) yn effeithio ar y ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei dysgu a'i phrosesu, a gall hyn gael effaith sylweddol ar addysg a dysgu. Gallant ddigwydd ar draws ystod eang o alluoedd deallusol ac mae dysgwyr yn amrywio o ran sut y mae eu hanawsterau'n amlygu eu hunain. Gan amlaf, y mae'r term ADP yn cyfeirio at:

- dyslecsia
- dyscalculia
- anhwylder cydsymud datblygiadol (y cyfeirir ato weithiau fel dyspraxia)
- anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywioigrwydd
- nam iaith penodol.

Gweler yr Atodiad i gael disgrifiadau o'r uchod.

Yn aml, bydd gan rywun ag un math o ADP anhawster arall sy'n cyd-ddigwydd a bydd math arall o ADP yn cael eu hamlygu.

Er mwyn sicrhau bod ysgolion mewn sefyllfa dda i gefnogi amrywiol anghenion dysgwyr ag ADP, y mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r Fframwaith ADP hwn.

Pam mae Fframwaith ADP yn bwysig?

Mae cefnogi dysgwyr ag ADP yn fater i bob ysgol. Er bod rhywfaint o ganllawiau a/neu hyfforddiant ar gael ynglŷn â sut i gefnogi dysgwyr ag ADP, ceir diffyg eglurdeb o ran diffiniadau ag ystyr terminoleg fel sgrinio, asesu ac ymyraethau.

Mae diffyg cysondeb mewn gwybodaeth wedi arwain yn rhannol at amrywiaeth yn y ffyrdd arferol y mae awdurdodau lleol (ALLau) a'u hysgolion yn nodi, asesu a darparu ar gyfer plant ag ADP. Mae ymchwil blaenorol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â darpariaeth ar gyfer dyslecsia yn ysgolion Cymru¹ yn tynnu sylw at yr amrywiaeth hwn ar draws ALLau.

Mae angen felly i ddarparu ffordd syml ond effeithiol o gyfeirio ysgolion at wybodaeth berthnasol a chanllawiau pwysig y gellir eu defnyddio i gefnogi ymarferwyr mewn ysgolion i gyflawni darpariaeth addysgol addas ar gyfer plant ag ADP. Bydd gwneud hyn yn helpu i arfer dulliau mwy cyson o gymorth addysgol ledled Cymru.

¹ www.gov.wales/statistics-and-research/research-dyslexia-provision/?skip=1&lang=cy

Bydd rhoi'r Fframwaith ADP ar waith yn briodol yn rhan o agwedd ehangach ysgol at ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), yn caniatáu i ysgolion ddod yn fwy cynhwysol ac yn helpu i fodloni anghenion y grŵp hwn o ddysgwyr agored i niwed. Byddai'r Fframwaith ADP:

- ar gyfer unigolion a'r rhai sy'n eu cefnogi
- yn darparu agwedd gyson tuag at ADP ledled Cymru
- yn sicrhau y gwneir cysylltiadau â pholisiau Llywodraeth Cymru ar draws yr adrannau
- yn cefnogi canfod ADP yn gynnar ac ymyraethau cynnar ar lefel gynradd
- yn asesu adnoddau presennol a/neu datblygu rhai newydd ar gyfer ADP yn Gymraeg a Saesneg fel bo'r angen.

Diben, nodau a nodweddion y Fframwaith ADP

Datblygwyd y Fframwaith ADP gydag arbenigwyr ym maes ADP² a ddaeth â gwybodaeth ac arfer gorau o brifysgolion, Allau, byrddau iechyd lleol a'r trydydd sector. Ei ddiben oedd cyflawni system addysg fwy cynhwysol ar gyfer plant ag ADP ac i helpu arweinyddion ac ymarferwyr ysgolion i ddeall yr anawsterau a wynebir gan ddysgwyr er mwyn gwneud yr addasiadau priodol i arferion addysgu ac amgylcheddau ysgol/ystafell ddosbarth.

Nodau allweddol y Fframwaith ADP yw:

- gwella'r ddealltwriaeth o ADP ac amlygu arfer ADP-gyfeillgar
- cynyddu ymwybyddiaeth o strategaethau i gefnogi plant oedran ysgol ag ADP
- annog defnyddio canllawiau a gwybodaeth sydd ar gael i ysgolion i'w helpu i gefnogi dysgwyr ag ADP.

Mae nodweddion allweddol y Fframwaith ADP yn cynnwys:

- 16 datganiad o ddisgwyliadau sy'n darparu nodweddion allweddol ysgol ADP-gyfeillgar
- datganiadau o ddisgwyliadau sy'n rhoi proses dybiannol ar gyfer creu amgylcheddau ADP-gyfeillgar. Mae'r broses yn cynnwys:
 - **ysgolion** yn sicrhau bod eu polisiau yn cefnogi dysgwyr ag ADP
 - **dysgwyr** yn cymryd mwy o ran yn eu dysgu
 - **ymarferwyr** yn nodi, cefnogi a gweithredu ymyraethau pwrpasol ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o gael eu gadael ar ôl gan eu cyfoedion.

Sut i ddefnyddio'r Fframwaith ADP

Gellir gweld y 16 datganiad o ddisgwyliadau yn y tabl canlynol. Darperir mwy o fanylion ynglŷn â phob datganiad o ddisgwyliadau yn yr adrannau sy'n dilyn.

Mae deunyddiau ategol o ran gwybodaeth a chanllawiau ynglŷn â'r Fframwaith ADP ar gael drwy wefan Dysgu Cymru yn [dysgu.llyw.cymru/resources/collections/spld-framework/?lang=cy](https://learning.gov.wales/resources/collections/spld-framework/?lang=cy). Dylai ysgolion ac ymarferwyr sicrhau eu bod yn ystyried eu harfer dysgu eu hunain o ran ADP drwy ddiweddarau eu gwybodaeth am ddulliau ar gyfer ADP yn rheolaidd.

² learning.gov.wales/news/events/spld-task-finish-group/?skip=1&lang=cy

Y Fframwaith ADP

Datganiadau o ddisgwyliadau gan ysgolion ADP-gyfeillgar				
Dylai ysgolion sicrhau bod eu polisiau'n cefnogi dysgwyr ag ADP trwy →	egluo sut y bydd dysgwyr ag ADP yn cael eu nodi, eu cynorthwyo a'u monitro	weithredu dysgu proffesiynol addas ar gyfer yr holl ymarferwyr gan gynnwys staff cymorth	sicrhau bod strategaethau addysgu a dysgu priodol yn cael eu mabwysiadu	eu gwneud yn eglur ac yn hygyrch i rieni/gofalwyr ac asiantaethau allanol
Dylai dysgwyr gymryd mwy o ran yn eu dysgu trwy →	gyfranogi yn y broses o ddatblygu eu cynllun dysgu	gael gafael ar gymorth yn Gymraeg ac yn Saesneg	fabwysiadu dulliau sy'n cefnogi dysgu a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain	dderbyn cymorth i wella eu cydnerthedd/ eu hunan-barch er mwyn cyflawni eu potensial
Dylai ymarferwyr nodi, cefnogi a gweithredu ymyraethau pwrpasol ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o gael eu gadael ar ôl gan eu cyfoedion, trwy →	ganolbwyntio ar nodi dysgwyr yn gynnar drwy ddefnyddio offer sgrinio priodol nodi a defnyddio offer asesu effeithiol	sicrhau bod gwahaniaethiad, adnoddau ac offer priodol yn cael eu defnyddio nodi a defnyddio ymyraethau pwrpasol addas	ddarparu dulliau pedagogaid sydd o fudd i bob dysgwr fonitro effaith ymyraethau yn erbyn cynnydd dysgwyr	nodi cymorth pwrpasol fel bo'r angen atgyfeirio dysgwyr at arbenigwyr allanol fel y bo'n briodol

Gellir canfod pob adran o'r Fframwaith ADP yn y tabl canlynol ac mae hefyd yn darparu gwybodaeth ar bob un o'i ddatganiadau o ddisgwyliad.

Eglurhad o bob datganiad o ddisgwyliad

Dylai dysgwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion edrych ar y dogfennau atodol ar wefan Dysgu Cymru ar gyfer pob un o'r datganiadau o ddisgwyliad.

Dylai ysgolion sicrhau bod eu polisiau'n cefnogi dysgwyr ag ADP trwy:	
egluo sut y bydd dysgwyr ag ADP yn cael eu nodi, eu cynorthwyo a'u monitro.	<p>Eglurhad</p> <p>Wrth ystyried polisiau i gefnogi'r rhai sydd ag ADP, dylai ysgolion sicrhau bod gwybodaeth bwysig yn cael ei darparu ynglŷn â sut y gall staff nodi y rhai sydd o bosibl yn amlygu ADP.</p> <p>Dylai polisiau lleol gyfeirio at ffynonellau gwybodaeth y gellir eu defnyddio i gefnogi anghenion y dysgwr. Dylent hefyd ddarparu gwybodaeth ynglŷn â chydgylltydd anghenion addysgol arbennig yr ysgol (SENCo) a staff allweddol eraill sydd yn gallu helpu i ddarparu cymorth i'r rhai sydd ag ADP.</p> <p>Wrth ddatblygu eu polisiau ynglŷn ag asesu a'r cwricwlwm ac ati, dylai ysgolion gynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut y byddant yn monitro a gwerthuso cynnydd yr holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADP.</p>
weithredu dysgu proffesiynol addas ar gyfer yr holl ymarferwyr gan gynnwys staff cymorth.	<p>Eglurhad</p> <p>O fis Medi 2015 ymlaen mae'n ofynnol i bob ysgol gael cynllun tair blynedd o ddatblygiad ysgol. Y cynllun datblygu ysgol yw cynllun gwella strategol yr ysgol ac mae'n rhaid iddo gynnwys cynllun datblygu staff sy'n pennu sut y mae'r ysgol yn bwriadu datblygu a defnyddio'r gweithlu i fodloni ei blaenoriaethau a'i thargedau. Dylai ysgolion ddefnyddio'r broses rheoli perfformiad i sicrhau bod anghenion datblygiad proffesiynol yn cael eu nodi drwy hunanwerthusiad a chan ystyried blaenoriaethau a thargedau'r ysgol, yn ogystal â'r safonau proffesiynol perthnasol. Dylai'r aelodau hynny o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol â dysgwyr ag ADP fod wedi'u hyfforddi'n briodol i allu adnabod arwyddion o ADP a dylent allu rhoi'r ymyraethau priodol ar waith ar lefel yr ysgol.</p> <p>Dylai ysgolion sicrhau bod ymarferwyr yn gallu manteisio ar adnoddau addas wrth ddilyn dysgu proffesiynol sy'n ymwneud ag ADP. Dylent geisio annog dysgu proffesiynol yr holl ymarferwyr, a'u cefnogi mewn unrhyw drefniadau hyfforddi sydd eu hangen, yn unol â model dysgu proffesiynol Llywodraeth Cymru a ddatblygwyd yn rhan o'r Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg.</p>

<p>sicrhau bod strategaethau addysgu a dysgu priodol yn cael eu mabwysiadu.</p>	<p>Eglurhad</p> <p>Fel gyda phob AAA, dylai ysgolion sicrhau bod strategaethau dysgu addas ar waith i helpu dysgwyr ag ADP i gymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r dosbarth. Bydd mabwysiadu strategaethau addysgu priodol yn helpu i greu amgylchedd cyfforddus i'r holl ddysgwr sydd ag ystod amrywiol o anghenion dysgu.</p> <p>Dylai polisi ysgol nodi egwyddorion sylfaenol arfer addysgu effeithlon wrth ymgysylltu â dysgwyr ag AAA. Dylai'r egwyddorion fod yn ddigon hyblyg i sicrhau bod posib defnyddio strategaethau dysgu i fodloni amrywiaeth o anghenion dysgu, gan gynnwys anghenion y rhai a nodwyd fel bod ag ADP.</p> <p>Mae arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn helpu i nodi'r rhwystrau rhag dysgu a brofir gan ddysgwr ynghyd â dulliau o weithio a fydd yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae defnyddio offer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn helpu ymarferwyr i nodi strategaethau dysgu ac addysgu addas.</p> <p>O dan Y Fargen Newydd i'r Gweithlu Addysg, y mae cael gafael ar ddysgu proffesiynol o ansawdd da yn hawl i bob ymarferwr fel eu bod yn gallu gwella a datblygu eu sgiliau pedagogaid yn barhaus.</p>
<p>eu gwneud yn eglur ac yn hygyrch i rieni/gofalwyr ac asiantaethau allanol.</p>	<p>Eglurhad</p> <p>Dylai ysgolion sicrhau bod eu polisiau, e.e. cynlluniau cydraddoldeb strategol, ar gael i rieni/gofalwyr ac asiantaethau allanol.</p> <p>Dylai polisiau ar gyfer AAA, gan gynnwys ADP, egluro'n glir ddulliau'r ysgol o wneud y cwricwlwm yn hygyrch i'r grŵp hwn o ddysgwyr. Dylai'r polisiau dynnu sylw at ble y gellir cael cymorth o fewn yr ysgol a darparu manylion cyswllt perthnasol i unrhyw un sy'n eu darllen.</p> <p>Mae rhieni/gofalwyr a'r amgylchedd dysgu yn y cartref yn hanfodol bwysig i ddysgu a chyrhaeddiad addysgol plant. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu 'Canllawiau ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd' manwl i ysgolion ynghyd â phhecyn cymorth o adnoddau, a gyhoeddir ar wefan Dysgu Cymru.</p>

Dylai **dysgwyr** gymryd mwy o ran yn eu dysgu trwy:

gyfranogi yn y broses o ddatblygu eu cynllun dysgu.

Eglurhad

Dylai dysgwyr fod wrth wraidd cynllunio eu darpariaeth addysgol er mwyn sicrhau bod unrhyw ymyraethau pwrpasol yn addas i'w hanghenion.

Anogir pob ymarferwr i ddefnyddio dulliau wedi'u seilio ar arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gynllunio a chydysnio ar ddarpariaeth ar gyfer dysgwr ag ADP (a dysgwyr eraill ag AAA). Mae hyn yn golygu bod gofyn i'r dysgwr a'r rhieni/gofalwyr gymryd rhan ar bob cam ac mae nifer o offerynnau ar gael i helpu ymarferwyr, dysgwyr a'u teuluoedd i ddeall a gwneud y mwyaf o'r dulliau hyn.

Dylid defnyddio arfer yn canolbwyntio ar yr unigolyn i ddatblygu a chwblhau unrhyw gynlluniau a luniwyd er mwyn cyflawni'r ddarpariaeth addysgol angenrheidiol. Bydd rhagor o wybodaeth ynglŷn ag arfer yn canolbwyntio ar yr unigolyn i'w gael ar wefan Dysgu Cymru.

gael gafael ar gymorth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Eglurhad

Dylai dysgwyr ag ADP ac AAA eraill gael cymorth pan fo hynny'n briodol ac yn weddol ymarferol yn eu hiaith ddewisol, boed hynny yn Gymraeg, Saesneg neu'r ddwy iaith. Mae'n bwysig bod cymorth staff perthnasol sy'n gallu gweithio â'r holl ddysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg yn hawdd ei gael.

fabwysiadu dulliau sy'n cefnogi dysgu a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Eglurhad

Dylid annog dysgwyr ag ADP i gymryd rheolaeth dros eu dysgu eu hunain pan fo hynny'n briodol. Mae arfer yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn helpu i roi swyddogaeth ganolog i'r dysgwr o ran nodi gweithgareddau dysgu priodol a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae ymarferwyr mewn ysgolion yn chwarae rhan allweddol mewn hybu dysgu annibynnol yn ogystal â chyflawni ymyraethau i gefnogi eu hanghenion.

Bydd bod â dealltwriaeth dda o alluoedd dysgwyr yn helpu i benderfynu ar y dulliau y bydd ymarferwyr o bosibl yn dymuno eu defnyddio i sicrhau bod gan ddysgwyr ag ADP yr hyder i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Dylid monitro unrhyw ddulliau yn rheolaidd a'u gwerthuso i sicrhau bod y canlyniadau a ddymunir yn cael eu cyflawni.

<p>dderbyn cymorth i wella eu cydnerthedd/eu hunan-barch er mwyn cyflawni eu potensial.</p>	<p>Eglurhad Dylai dysgwyr ag ADP gael cymorth ychwanegol gan ymarferwyr a staff eraill sy'n gweithio gyda nhw i helpu i wella eu hunan-barch a'u hyder. Wrth wneud hyn, mae'n bwysig bod gan ymarferwyr dealltwriaeth o'r gwendidau sydd gan ddysgwyr ag ADP yn gyffredinol, ond hefyd bod ganddynt ddealltwriaeth o anghenion penodol yr unigolion. Mae annog ymgysylltiad â dysgu a chymryd cyfrifoldeb amdano yn aml yn helpu i hybu hyder y dysgwr ac felly yn ei alluogi i gyrraedd ei lawn botensial.</p>
---	--

Dylai **ymarferwyr** nodi, cefnogi a gweithredu ymyraethau pwrpasol ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o gael eu gadael ar ôl gan eu cyfoedion, trwy:

<p>ganolbwyntio ar nodi dysgwyr yn gynnar drwy ddefnyddio offer sgrinio priodol.</p>	<p>Eglurhad Ni ellir gor-bwysleisio pwysigrwydd sylweddoli bod gan blentyn ADP yn gynnar. Y cynharaf y cymerir camau, y gorau fydd ymateb y plentyn, a'r cynharaf y gellir ymyrryd. Bydd dysgwr sydd mewn perygl o gael ei adael ar ôl yn anochel yn dangos arwyddion ei fod yn cael anhawster â rhai agweddau ar ddysgu. Gellir gweld hyn trwy eu hymgysylltiad, neu ddiffyg ymgysylltiad, a'r gwaith ysgrifenedig y maent yn ei gynhyrchu. Ymarferwyr sydd yn y sefyllfa orau i adnabod yr arwyddion hyn.</p> <p>Fel gyda phob maes o AAA, mae adnabod ADP yn gynnar a'r ymyrraeth ddilynol yn cael effaith fawr ar gyrraedd y dysgwr. Dylai ymarferwyr felly fod â dealltwriaeth o offer sgrinio priodol y gellir eu defnyddio a dylent allu adnabod arwyddion o ADP trwy ddadansoddi unrhyw sgrinio a ddefnyddiwyd. Mae canllawiau ynglŷn â dulliau sgrinio, asesu ac ymyrryd ar gyfer dysgwyr ag ADP yng Nghymru ar gael ar wefan Dysgu Cymru.</p>
--	--

<p>sicrhau bod gwahaniaethiad, adnoddau ac offer priodol yn cael eu defnyddio.</p>	<p>Eglurhad Dylai ymarferwyr mewn ysgolion fod yn ymwybodol o'r adnoddau a'r offer sydd ar gael i nodi a chefnogi dysgwyr sydd o bosibl yn cael trafferthion sy'n gysylltiedig ag ADP. Dylai ymarferwyr sicrhau gwahaniaethiad yn eu harfer dysgu, trwy gwestiynu gan yr athro a gweithgareddau gwahanol, er mwyn bodloni anghenion pob dysgwr. Mae'r agwedd hon yn arbennig o bwysig i ddysgwr ag ADP. Gall technolegau cynorthwyol</p>
--	---

	<p>fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth ddatgloi potensial y rhai sydd ag ADP. Mae canllawiau i athrawon ynglŷn â thechnolegau cynorthwyol i ddysgwyr ag ADP ar gael ar wefan Dysgu Cymru.</p>
<p>ddarparu dulliau pedagogaidd sydd o fudd i bob dysgwr.</p>	<p>Eglurhad</p> <p>Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn mabwysiadu dulliau pedagogaidd wrth addysgu pob dysgwr ond yn enwedig felly y rhai sydd efallai ag ADP.</p> <p>Wrth ddefnyddio'r dulliau hyn, dylai ymarferwyr allu adnabod arwyddion bod dysgwr yn cael trafferth â chysyniad dysgu arbennig ac felly mewn perygl o gael ei adael ar ôl. Trwy sylweddoli'r gwahaniaeth rhwng y dysgwyr hyn a'u cyfoedion, dylai ymarferwyr allu darparu cymorth ac ymyraethau addas gan barhau i ddefnyddio egwyddorion addysgu. Gall dulliau datrys problemau helpu i nodi dysgwr sydd mewn perygl o gael ei adael ar ôl, ond i ddysgwyr arall gallai fod yn agwedd arall i weddu i'w gallu i ddysgu. Dylai ymarferwyr gadw adran '2.2 Addysgu' o <i>Arweiniad ar gyfer arolygu ysgolion cynradd ac Arweiniad ar gyfer arolygu ysgolion uwchradd Estyn</i> (y ddau wedi'u cyhoeddi gan Estyn, 2014).</p> <p>Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn helpu i nodi'r rhwystrau rhag dysgu a wynebir gan ddysgwyr a'i hoff ffordd o weithio. Mae defnyddio offer yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn rhoi llais i ddysgwyr ac yn helpu ymarferwyr i ddeall pa ddulliau addysgol fyddai fwyaf effeithlon.</p>
<p>nodi cymorth pwrpasol fel bo'r angen.</p>	<p>Eglurhad</p> <p>Mae asesu dysgwr a monitro cynnydd dysgwr yn bwysig ar gyfer datblygiad pob dysgwr. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gadael ar ôl gan eu cyfoedion oherwydd ADP nas nodwyd, neu pan nad yw ymyrraeth a drefnwyd yn addas, neu pan nad yw'n addas mwyach i'w hanghenion dysgu.</p> <p>Dylai ymarferwyr sicrhau bod gwaith monitro o ansawdd da ar gynnydd dysgwyr wedi'i ymgorffori yn eu harfer dysgu. Yn ogystal â mesur yn erbyn unrhyw amcanion a osodwyd ar gyfer y dysgwr, dylai ymarferwyr hefyd fonitro lles a chynnydd academiaidd dysgwyr yn ddyddiol a bod yn hyderus i adolygu'r gefnogaeth sydd ar waith ar unrhyw adeg.</p>

	<p>Dylid nodi deilliannau eglur ar gyfer pob ymyrraeth. Gellir datblygu'r rhain drwy drafodaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn â'r dysgwr, eu rhieni/gofalwyr a'r ymarferwyr sy'n eu cynorthwyo. Dylai pob deiliant annog a chefnogi uchelgeisiau'r dysgwr.</p> <p>Gellid graddio deilliannau gwirioneddol yn erbyn ystod o ddeilliannau a fwriadwyd, e.e. gan ddefnyddio system COG (coch = heb ei gyflawni, oren = wedi'i gyflawni, gwyrdd = rhagorwyd arno), hunanwerthuso disgyblion, canlyniadau profion, data ansoddol a meintiol, ac ati.</p>
<p>nodi a defnyddio offer asesu effeithiol.</p>	<p>Eglurhad</p> <p>Bydd sicrhau ymyrraeth addas i gefnogi dysgwr ag ADP yn cael effaith fawr ar ei allu i ddysgu. Bydd yn helpu i feithrin hyder yn agwedd y dysgwr at ddysgu ac yn datgloi ei botensial.</p> <p>Yn dilyn sgrinio anghenion y dysgwr, dylai ymarferwyr ddeall sut i adnabod offer asesu effeithiol (pan ei bod yn briodol i wneud hynny) y gellir eu defnyddio i lywio ymyraethau pwrpasol i'r dysgwr neu pryd i wneud atgyfeiriad priodol at arbenigwyr ar gyfer asesiad. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at nodi ymyraethau pwrpasol addas (gweler y datganiad disgwyliadau sy'n dilyn).</p>
<p>nodi a defnyddio ymyraethau pwrpasol addas.</p>	<p>Eglurhad</p> <p>Bydd sicrhau ymyrraeth briodol i gefnogi dysgwr ag ADP yn cael effaith fawr ar ei allu i ddysgu ac oherwydd hynny, ei gyrhaeddiad. Mae Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar (EYDAF) yn cynnwys deunydd a all helpu â siartio cynnydd plant, yn enwedig trwy ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen sydd â'r nod o asesu galluoedd a datblygiad plant mewn sawl maes dysgu.</p> <p>Yn dilyn dadansoddi gwybodaeth a gesglir trwy asesiad, dylai ymarferwyr allu nodi a rhoi ar waith ymyraethau priodol a fydd yn helpu'r dysgwr i gael mynediad i'r cwricwlwm a'i helpu i gyrraedd ei lawn botensial.</p> <p>Mae arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn helpu i nodi'r rhwystrau rhag dysgu a wynebwr gan ddysgwr a'i hoff ffordd o weithio. Mae defnyddio offer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rhoi llais i ddysgwyr wrth gynllunio eu cymorth ac yn helpu ymarferwyr i nodi ymyraethau pwrpasol priodol.</p>

<p>fonitro effaith ymyraethau yn erbyn cynnydd dysgwyr.</p>	<p>Eglurhad</p> <p>Mae monitro pob dysgwr yn hanfodol ar gyfer darparu dulliau pwrpasol i addysgu dosbarth o unigolion. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo dysgwr wedi dangos arwyddion ei fod yn cael ei adael ar ôl gan ei gyfoedion a/neu bod ganddo hanes o fod angen cymorth ychwanegol i fodloni ei anghenion dysgu.</p> <p>Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn monitro cynnydd dysgwyr y nodwyd bod ganddynt ADP yn barhaus er mwyn sicrhau bod ymyraethau sydd ar waith yn dal yn addas ar gyfer anghenion pob dysgwr. Dylid defnyddio dulliau/offer sicrhau ansawdd. Er y gellir gwneud hyn ar adegau allweddol yn ystod y tymor ysgol, dylai ymarferwyr sylwi ar gynnydd y dysgwr yn ddyddiol. Dylai ymarferwyr hefyd ymgynghori â chynorthwyrwyr dysgu pan fo'n briodol.</p> <p>Dylid integreiddio effaith ymyraethau a dylid integreiddio cynnydd y dysgwr i system reoli gwybodaeth yr ysgol yn hytrach na'i gofnodi ar wahân. Trwy gynnwys yr wybodaeth hon o fewn system reoli gwybodaeth yr ysgol y mae'n bosibl cyfuno ystod eang o ddata a thrwy hynny gael darlun mwy cyfoethog o ddatblygiad y dysgwr.</p>
<p>atgyfeirio dysgwyr at arbenigwyr allanol fel y bo'n briodol.</p>	<p>Eglurhad</p> <p>Dylai ysgolion fod â'r gallu i weithredu ymyraethau sydd â'r nod o gefnogi'r mwyafrif o ddysgwyr sydd yn cael trafferth ag agweddau penodol ar eu dysgu. Gwneir hyn ar y cyd â SENCo yr ysgol a staff eraill pan fo'n briodol. Fodd bynnag, weithiau efallai na fydd gan yr ysgol yr arbenigedd yn fewnol i gynnal asesiadau ac ymyraethau penodol sy'n briodol i addysg pob dysgwr. Dan amgylchiadau o'r fath, dylai ymarferwyr gysylltu â gwasanaeth addysg eu hawdurdod lleol i gael cyngor ynglŷn ag arbenigwyr allanol, fel gwasanaethau'r GIG, darparwyr y trydydd sector neu hyd yn oed ysgolion eraill â staff medrus, sy'n gallu darparu asesiadau a chymorth pwrpasol arbenigol i ddysgwyr ag ADP.</p>

Atodiad: Disgrifiadau o ADP

Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd	
Beth yw hyn?	Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd yw'r term ambarél i ddisgrifio cyflwr sy'n effeithio ar allu unigolion i dalu sylw ac i ganolbwyntio ynghyd â'u byrbwylltra, eu lefelau egni a'u cof (cynhwysir anhwylder diffyg canolbwyntio yn hyn).
Pa mor gyffredin yw hyn?	Mae'n bosibl bod un dysgwr ym mhob dau ddosbarth ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd difrifol.
Beth yw ei briod nodweddion?	Gall dysgwyr gyflwyno anawsterau o ran talu sylw a chanolbwyntio, ac mae'n bosibl y bydd ganddynt symptomau 'gorfywiogrwydd' hefyd, sydd yn dod yn llai amlwg wrth iddynt fynd yn hŷn. Mae ciwio ac aros eu tro yn gallu bod yn enghreifftiau o anawsterau.

Anhwylder cydsymud datblygiadol	
Beth yw hyn?	Mae anhwylder cydsymud datblygiadol, a adnabyddir hefyd fel dyspracsia yn y DU, yn effeithio ar sgiliau cydsymud echddygol manwl a bras a sgiliau cydbwysedd.
Pa mor gyffredin yw hyn?	Rhwng un a dau ddysgwr ym mhob dosbarth.
Beth yw ei briod nodweddion?	Gall dysgwyr arddangos anawsterau o ran gofalu am eu hunain, ysgrifennu, teipio, reidio beic a chwarae, yn ogystal â gweithgareddau addysgol a hamdden eraill. Mae'n bosibl iddo effeithio ar y dysgwr o ran cymryd rhan lawn mewn sgiliau bywyd bob dydd sy'n gofyn am gydsymudiad yn yr ysgol ac yn y cartref.

Dyscalcwlia	
Beth yw hyn?	Cyflwr yw dyscalcwlia sy'n effeithio ar y gallu i ddysgu sgiliau rhifyddeg yn bennaf.
Pa mor gyffredin yw hyn?	Dau ddysgwr ym mhob dosbarth.
Beth yw ei briod nodweddion?	Mae'n bosibl y bydd dysgwyr yn cael anhawster i ddeall cysyniadau rhif syml, bod ganddynt ddiffyg dealltwriaeth reddfol o rifau, a'u bod yn cael anhawster dysgu ffeithiau rhif, tablau llusoi a gweithdrefnau. Hyd yn oed pan fyddant yn cael ateb yn gywir neu'n defnyddio dull cywir, mae'n bosibl eu bod wedi gwneud hynny'n fecanyddol ac yn ddihyder.

Dyslecsia	
Beth yw hyn?	Anhawster dysgu sy'n effeithio'n bennaf ar y sgiliau a ddefnyddir i ddarllen geiriau'n gywir ac yn rhugl ac ar sillafu yw dyslecsia.
Pa mor gyffredin yw hyn?	Rhwng un a dau ddysgwr ym mhob dosbarth.
Beth yw ei briod nodweddion?	Mae anawsterau ag ymwybyddiaeth ffonolegol, cof geiriol a chyflymder prosesu geiriol yn briod nodweddion o ddyslecsia.

Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu	
Beth yw hyn?	Anhwylder datblygiadol yw nam iaith penodol a all effeithio ar allu'r dysgwr i siarad, i ddeall ac i gyfathrebu'n effeithiol.
Pa mor gyffredin yw hyn?	Un dysgwr ym mhob dosbarth.
Beth yw ei briod nodweddion?	Efallai y bydd gan ddysgwyr anhwylder lleferydd sydd yn golygu eu bod yn arddangos anawsterau amrywiol o ran cynhyrchu synau lleferydd neu anawsterau ag ansawdd y llais. Mae'n bosibl bod gan ddysgwyr anhwylder iaith hefyd sy'n golygu y gallant gael anawsterau o ran eu gallu i ddeall (dealltwriaeth iaith) a/neu wrth ddefnyddio geiriau neu fynegi syniadau (iaith fynegiadol). Weithiau bydd dysgwyr yn dioddef oedi o ran datblygu iaith ac yn hwyr yn siarad.